**EOC-01-03(p1)**

**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** Dydd Iau 16 Ionawr 2003
**Amser:** 9.30 am
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
**Teitl:** Adroddiad y Gweinidog

**Diben**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion sydd wedi codi ers i'r Pwyllgor gyfarfod ddiwethaf ar 12 Rhagfyr 2002.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

**Ymgynghori ar Un Corff Cydraddoldeb**

3. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd ag Uned Merched a Chydraddoldeb yr Adran Diwydiant a Masnach a Swyddfa Cymru yn cynnal cyfres o seminarau yn ystod mis Ionawr a Chwefror ar ddogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar *Equality and Diversity: Making It Happen.* Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn ystyried y dewisiadau hirdymor ar gyfer blaenoriaethau'r systemau cydraddoldeb ym Mhrydain Fawr, a strwythur y systemau hynny, gan gynnwys y posibilrwydd o greu un corff cydraddoldeb.

4. Y gynulleidfa darged ar gyfer y digwyddiadau hyn fydd cyrff yng Nghymru sy'n delio â materion cydraddoldeb ond a fyddai efallai heb ddigon o adnoddau i ymateb yn foddhaol i ymgynghoriad gan Whitehall - grwpiau mynediad i'r anabl, grwpiau pobl hoyw, cynrychiolwyr crefydd a chymuned, grwpiau gwirfoddol lleol ac yn y blaen. Bydd cynrychiolwyr o'r cyrff cyflogi yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac undebau llafur yn cael eu gwahodd, yn ogystal â'r Comisiynau statudol presennol a'r holl gyrff cydraddoldeb eraill sy'n gweithio yng Nghymru. Bydd pob un o'r chwe llinyn cydraddoldeb yn cael eu cynnwys, yn ogystal â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5. Bydd Barbara Roche AS a minnau yn annerch yr achlysur lansio yn Abertawe ar 21 Ionawr 2003. Byddaf hefyd yn annerch y digwyddiadau rhanbarthol yng Nghwmbrân (23 Ionawr) a Llandudno (6 Chwefror). Gobeithir y bydd Don Touhig AS, fydd yn cynrychioli Swyddfa Cymru, hefyd ar gael i annerch y digwyddiad yn Llandudno.

**DIWRNOD AMRYWIAETH**

6. Ddydd Mercher Rhagfyr 11 2002, cynhaliwyd diwrnod amrywiaeth cyntaf Cymru. Amcanion y dydd oedd:

- Hybu gwybodaeth am y materion cydraddoldeb presennol ymhlith staff Cynulliad Cenedlaethol

Cymru.

- Hyrwyddo gwaith Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol
- Galluogi ein partneriaid mewn sefydliadau ymgynghori ar gydraddoldeb i fynegi barn am ymgynghori a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
- Rhannu arfer da yn fewnol.

7. Roedd Aelodau'r Cynulliad a gwahoddedigion o Sefydliadau Cydraddoldeb ledled Cymru yn bresennol mewn achlysur lansio llwyddiannus yn yr adeilad hwn pan wnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol a minnau, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor hwn, ailgadarnhau ein hymrwyniad i bolisïau a thargedau cyfle cyfartal y Cynulliad. Cafodd yr achlysur ei ddarlledu'n fyw i bedair swyddfa ledled Cymru, sef Llandrindod, Caerfyrddin, Aberystwyth a Bae Colwyn trwy gyfrwng offer fideo. Dathlwyd y Diwrnod Amrywiaeth yn y swyddfeydd hyn a Chaernarfon hefyd, a chafwyd siaradwyr a sesiynau rhyngweithiol.

Ymhlith y digwyddiadau a gynhaliwyd roedd:

- Sesiynau rhyngweithiol ar y model cymdeithasol o anabledd a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fis Ionawr 2002.
- Fforymau trafod gyda'r cyrff ymbarél sy'n bartneriaid ynghylch ymgynghori effeithiol.
- Defnyddio theatr fel dull defnyddiol o drafod materion cydraddoldeb.
- Seminar ar gyfer uwch weision sifil o'r enw "Good intentions into action: Making equalities a reality for managers".

Cafwyd adborth ardderchog o'r holl ddigwyddiadau hyn.

**PARTNERIAETH SIFIL**

8. Mae'r Uned Merched a Chydraddoldeb yn yr Adran Diwydiant a Masnach wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg am gynigion i ganiatáu i barau o'r un rhyw gofrestru eu partneriaeth. Disgwylir y bydd dogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr haf.

**DIOGELU HAWLIAU POBL TRAWSRYWIOL**

9. Mae Adran yr Arglwydd Ganghellor wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn amlinellu'r cynigion am ddeddfwriaeth newydd i weithredu dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop yn *Goodwin* ac *'I'*. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn rheoleiddio sefyllfa pobl trawsrywiol a all ddangos eu bod wedi cymryd camau pendant tuag at fyw'n llawn ac yn barhaol yn eu dewis rywedd, ac eithrio yn y rhywedd y cofrestrwyd hwy ynddo tra'n fabanod. O ddyddiad y gydnabyddiaeth honno, bydd modd i bobl trawsrywiol briodi yn eu dewis rywedd, hawlio pensiwn gwladol ar ôl cyrraedd yr oedran priodol, a gofyn am dystysgrifau 'geni' wedi eu diweddaru.